O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 334 (Cy. 38)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A55 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyfnewidfa Ewloe, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2013

Gwnaed *15 Chwefror 2013*

Yn dod i rym *25 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r de o Benbedw (yr A494) a chefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a'i gyfyngu ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A55 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyfnewidfa Ewloe, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2013.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 09:00 o'r gloch ar 25 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o gefnffyrdd yr A494 a'r A55 a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Cymhwyso

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 15 Chwefror 2013.

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLEN 1

Gwahardd Dros Dro Gerbydau, Cerddwyr a Beicwyr

i) Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin â Chefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant, Sir y Fflint.

ii) Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain â Chefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 34, Cyfnewidfa Ewloe yr A55/A494, Sir y Fflint, sy'n cysylltu Cefnffordd yr A494 â Chefnffordd yr A55.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro

Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A494 sy'n ymestyn tua'r gorllewin o'r trwyniad ar ddiwedd y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Plough Lane am bellter o ryw 2.2 o gilometrau.